

CV ACADEMAIDD - NODIADAU CYFARWYDDYD (Darlithydd 1 – Darlithydd 2)	
Cwestiwn	Nodiadau Cyfarwyddyd
GWYBODAETH BERSONOL	
SWYDD BRESENNOL	
2	Nodwch eich swydd bresennol. Nodwch eich dyddiad cychwyn yn eich swydd bresennol. Nodwch eich math cytundeb -Dysgu & Ysgolheictod neu Dysgu & Ymchwil
SWYDDI BLAENOROL	
3	Nodwch eich hanes gyrfao, gan restru mewn trefn gronolegol eich holl swyddi blaenorol. Os oes bylchau yn eich gyrfa a fydddech mor garedig â'i gynnwys, ynglŷn ag eglurhad a nodyn, os yn eich barn chwi mae rhai'n wedi cael effaith arwyddocaol ar ddatblygiad eich gyrfa.
CYMWYSTERAU	
4	Nodwch y rhain mewn trefn gronolegol.
CYMWYSTERAU DYSGU	
5	Nodwch y rhain mewn trefn gronolegol.
ADDYSGU A DYSGU	
6.1	<ul style="list-style-type: none"> • Rhestrwch dystiolaeth o'ch holl gyfrifoldebau addysgu ar gyrsiau trwy ddysgi, ar lefel ôl-radd ac is-radd ers eich dyddiad apwyntiad i'r rôl hon • Gan y gall cyfraniad y flwyddyn hon fod yn anghyflawn, ychwanegwch baragraff byr ar weithgareddau'r blynyddoedd hyn, gan nodi'n arbennig unrhyw ddatblygiadau o bwys a fo wedi digwydd ers y blynyddoedd cynt. • Cynhwyswch eich ffurflenni QA2 diweddaraf, ac ystadegau neu grynodedau (e.e. ARQUE) ynglŷn â gwerthusiad y myfyrwyr o'ch modiwlau. Gall tystiolaeth hefyd gynnwys adborth gan fentoriaid, adborth gan bwyllgorau cyrsiau, ymgynghoriadau staff-myfyrwyr, arolygu gan gydweithwyr, adborth gan arholwyr allanol. <p><i>Gellwch roi'r wybodaeth hon ar dudalen ar wahân / mewn atodiad os yw'n rhwyddach.</i></p>
6.2	<ul style="list-style-type: none"> • Nodwch unrhyw gyfraniad at yr Ysgol/ Coleg trwy ddatblygu ac asesu ar y rhaglen, trefnau amserlennu ac arholi, a rheolaeth gyffredinol ar addysgu. • Amlygwch hefyd amrediad eich cyfraniadau at waith addysgu, megis darlithoedd, seminarau, dosbarthiadau ymarferol a theithiau maes, a gwaith mewn addysg barhaol a chysiau byrion. • Nodwch unrhyw gyfraniadau perthnasol o ran addysgu a datblygu rhaglenni trwy'r Gymraeg, yn cynnwys addysgu a goruchwylio mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill (yng Nghymru ac ymhellach).
6.3	<p>Dylai hyn gynnwys unrhyw ymyriadau arloesol, megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dulliau newydd o roi gwybodaeth gymhleth; • defnyddio technoleg fel cymorth addysgu; • arferion o ran asesu; • gweithgareddau hyfforddi; • gwobrau megis Cymrawd Dysgu; • cyfraniadau at gyrsiau byrion a chysylltiadau â diwydiant/ y sector cyhoeddus; • addysgu y tu allan i'r Coleg; • Sicrhau grantiau a chontractau addysgu, a chyllid ar gyfer projectau cysylltiedig ag addysgu yn Gymraeg/ Saesneg; • Addysgu rhyngddisgyblaethol, ac • Addysgu rhyngsefydliadol. <p>Rhowch enghreifftiau o gyfraniadau at bedagogeg y maes pwnc/ arfer proffesiynol ac ysgolheictod yng nghyswllt addysgu a dysgu, megis oeddiadau ym maes addysg a llunio testunau addysgu.</p>

6.4	Rhowch amlinelliad byr o'ch cyfraniad i'r maes yma.
YMCHWIL	
7.1	Rhowch amlinelliad byr o'ch gweithgaredd ymchwil presennol.
7.2	<p>Rhowch eich holl gyhoeddiadau mewn trefn gronolegol, gan ddilyn ym mhob categori'r arddull o gyfeirnoddi sy'n briodol i'ch maes academiaidd. Rhowch radd i bob cyhoeddiad a restrir gan ddefnyddio'r system ddsbarthu a roddir isod (A/B/C/D). Gall fod o fudd i'ch achos os cyflwynwch ddata ar ffactorau yn ymwneud â'ch cyfraniad at gylchgronau ac â dyfyniadau o'ch gwaith lle defnyddir y rhain yn eang yn eich maes. Peidiwch â chynnwys ond meysydd y cynnyrch ymchwil sy'n berthnasol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Derbynnir projectau ymchwil a gomisiynwyd fel tystiolaeth o weithgarwch ymchwil. Nodwch a yw'r rhain wedi'u derbyn neu a ydynt wrthi'n cael eu hadolygu. • Nodwch a yw'r cylchgrawn yn academiaidd, yn broffesiynol neu'n boblogaidd. <p>Lle bo modd, dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r drefn ddsbarthu ganlynol yn achos pob cyhoeddiad a restrir:</p> <p>(A) – Cyhoeddiad a gydnabyddir yn brif gyfraniad tuag at bwnc, naill ai o ran torri tir newydd neu fel astudiaeth swyddogol. Adolygiad o'r pwnc a ddyfynnir yn aml. Mae hyn yn cyfateb i dair seren neu uwch yn nhermau REF. Gellir dynodi graddfa A+ i bapurau neilltuol o dda.</p> <p>(B) – Papur mewn cylchgrawn o bwys, yn cynnwys deunydd newydd empirig/damcaniaethol sylweddol neu ddehongliad a/ neu ddadansoddiad newydd. O bosibl yn rhan o gyfres o astudiaethau sy'n gwneud cyfanwaith sylweddol. Mae hyn yn cyfateb i ddwy seren neu uwch yn nhermau REF.</p> <p>(C) – Papur yn cynnwys diwygiadau o bwys ar dechneg, neu ehangiad ar gymhwysiad a all gynnwys cronid o ddata ychwanegol a defnyddiol, er ar raddfa fach, eglurhad cryno o waith arall neu sylwadau ar hynny. Adolygiad llyfr sylweddol sy'n mynd â phwnc neu destun gam ymhellach.</p> <p>(D) – Hysbysiad cychwynnol, effemera, crynodeb ar gyfer cynhadledd, erthyglau eglurhaol yn unig neu adolygiad ar lyfr (heblaw hysbysiad byr).</p> <p>Gall y ffynonellau o wybodaeth (yn ôl eich maes pwnc) gynnwys:</p> <p>CYHOEDDIADAU:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Llyfrau, monograffau, gweithiau golygedig, cyfraniadau at lyfrau a phenodau; • Erthyglau mewn cylchgronau neu lythyrau (nodwch a yw'r cylchgrawn yn academiaidd, yn broffesiynol neu'n boblogaidd); • Cyfraniadau at drafodaethau cynadleddau a gyhoeddwyd. <p>Nodwch a ydych yn olygydd neu'n ganolwr ar gyfer unrhyw gylchgronau neu gyhoeddwy'r ysgolheigaidd.</p> <p>CYFRANIADAU AT GYNADLEDDAU: Cyflwyno mewn cynadleddau neu drefnu cynadleddau.</p> <p>CYFRANIADAU PWNC-BENODOL: Papurau Gwaith Adrannol/ ar Ymchwil, Adroddiadau swyddogol (nodwch p'un a ydynt wedi'u cyhoeddi neu heb eu cyhoeddi, ond yn gyhoeddus), arddangosfeydd, comisiynau, perfformiad, dyluniadau peirianegol, cyfieithiadau, deunydd clyweledol, meddalwedd/ iaith gyfrifiadurol, cyfansoddiadau cerddorol, sgorau a sgriptiau.</p>

7.3 / 7.4	<ul style="list-style-type: none"> • Cynhwyswch fanylion am unrhyw gyllid yr ydych wedi gwneud cais amdano yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf, gan nodi'r canlyniad. • Dylai cyllid at ymchwil, wedi'i ddadansoddi fesul blwyddyn, nodi swyddogaeth yr ymgeisydd o fewn ymchwil a gyllidwyd gan grŵp. • Mae amlinelliad ar weithgaredd masnachol yn cynnwys gweithgaredd KTP, defnyddio Eiddo Deallusol, patentau, etc. • Grantiau at ymchwil a chyllid ar gyfer ymchwilwyr ôl-raddedig yn eich maes (e.e. AHRC/ESRC ac efrydiaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol).
7.5	Nodwch yr holl fyfyrwyr ôl-raddedig heblaw'r rhai hyfforddedig yr ydych wedi'u goruchwyllo ac wrthi ar hyn o bryd yn eu goruchwyllo. Nodwch y lefel yr ydych wedi goruchwyllo arni, e.e. Meistr/ PhD.
CYFRANIAD EHANGACH AT Y BRIFYSGOL A'R GYMUNED (YN LLEOL, YN GENEDLAETHOL AC YN RHYNGWLADOL)	
8	<p>Nodwch nodweddion a lefel cyfraniad y swyddi penodol yr ydych wedi'u gwneud er mwyn cynnal rheolaeth effeithiol y Brifysgol ac i gynnal myfyrwyr. Amlinellwch eich swydd a'ch cyfrifoldebau yn y flwyddyn academaidd gyfredol, ynghyd â chrynodeb (mewn trefn gronolegol) o gyfraniadau mewn blynyddoedd a fu. Mae enghreifftiau'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ysgol – Cyfarwyddwr Cwrs, Swyddog UCAS/Derbyn Myfyrwyr, Tiwtor Blwyddyn, Cydlynnydd Modiwl, Uwch Diwtor, cymryd rhan yn y drefn o dderbyn myfyrwyr, trefnu arholiadau, amserlennu, cyfrannu at recriwtio myfyrwyr, ac at drefnau achredu/Sicrhau Ansawdd. • Coleg – Aelod o Bwyllgor Ymchwil / Pwyllgor Addysgu a Dysgu, Cydlynnydd Addysgu yn y Coleg. • Prifysgol – Aelod o'r Senedd, aelodaeth o bwyllgorau neu grwpiau tasg. Hefyd, nodwch unrhyw swyddogaeth(au) a gweithgareddau presennol a diweddar mewn undebau llafur. • Allanol - dyletswyddau arholwr allanol mewn Colegau / Prifysgolion eraill, trefnu cynadleddau, gwasanaeth proffesiynol i sefydliadau eraill, gwasanaeth i'r gymuned leol a chyrrff gwirfoddol / awdurdodau lleol yn darparu gwasanaeth lleol.
DATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAUS	
9.1	<ul style="list-style-type: none"> • Nodwch gynadleddau a seminarau ymchwil y buoch yn bresennol ynndynt a lle rydych wedi cyflwyno. • Cynhwyswch weithgaredd DPP yn fewnol (e.e. cysylltiedig ag ymchwil, addysgu a dysgu, a chyrtsiau a rhaglenni cysylltiedig â rheolaeth ac arweinyddiaeth).
9.2	Nodwch unrhyw gyfnod seibiant sabothol/astudio ac unrhyw gyfnod arwyddocaol oddi wrth waith e.e. absenoldeb mamolaeth/tadolaeth
9.3	Amlinellwch ddeilliannau eich seibiant sabothol/astudio ac unrhyw lwyddiannau/ cyfraniadau a gafwyd yn sgil y seibiant astudio. Beth oedd amcanion yr astudiaeth, ac a wireddwyd hwy?
9.4	Nodwch aelodaeth unrhyw gymdeithasau proffesiynol neu ddysgedig, aelodaeth o grwpiau proffesiynol yn ymwneud ag addysgu, ayb.
<i>Sylwch – gellwch hefyd gyflwyno datganiad diweddar y cytunwyd arno, yn gysylltiedig â Chynllun Arolygu Datblygiad Perfformiad, fel atodiad.</i>	
UNRHYW WYBODAETH BERTHNASOL ARALL	
10	Dylech gynnwys unrhyw wybodaeth na chyfeiriwyd ati eisoes a allai fod yn berthnasol i'ch cais.
A fydddech cystal â llofnodi'r cais a sicrhau bod Pennaeth eich Ysgol/Deon y Coleg wedi llofnodi i gadarnhau cywirdeb y cynnwys.	